**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 439**
**21 Mai, 2020 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) – eitemau 6-10 |
| Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) – eitem 1-6; 10-15 |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Sue Butler | (Comisiynydd Chwaraeon) – eitemau 8 & 9 |
| Alun Jones | (Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol) - eitem 12 |
| Eilir Jones | (Pennaeth Ymchwil) – eitem 13 |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Ebrill 23ain, 2020.**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 438 gynhaliwyd ar y 23ain o Ebrill. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

3. **Materion yn Codi**

**[Crynodeb:** Cyfeiriodd HHE at y BBC yng nghyd-destun newyddion digidol. Nododd RhW y byddai trafodaeth ynglŷn â'r BBC nes ymlaen yn y cyfarfod.]

Roedd OD wedi cael sgwrs gyda GE am y prosiect newyddion digidol, a gofynnodd os oedd y Bwrdd yn hapus iddo fod yn rhan o fwrdd y prosiect. Roedd y Bwrdd yn fwy na bodlon i OD helpu a chynghori.

4. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr. Byddai nifer o'r pwyntiau gweithredu parthed Covid-19 a chydleoli yn codi fel rhan o'r drafodaeth.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd RhW ei adroddiad ar lafar. Dywedodd ei fod wedi cael sgwrs gyda David Clementi, Cadeirydd y BBC. Roedd hefyd wedi cael sgwrs gyffredinol gyda Rhodri Talfan Davies.]

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad. Adroddwyd fod digwyddiad Facebook Live wedi'i chynnal bythefnos yn ôl gyda OE ac AR yn cymryd rhan. Roedd yr ymateb yn bositif ac awgrymwyd y byddai'n syniad i'r Cadeirydd ymuno a'r un nesaf er mwyn cyflwyno ei weledigaeth o ddyfodol y gwasanaeth.

Penderfynwyd cynnal sesiwn Facebook Live gydag OE a RhW ym mis Mehefin.

**Arolwg Staff COVID-19**

**[Crynodeb:** Nodwyd fod canlyniadau'r Arolwg Staff COVID-19 wedi cyrraedd a rhannodd OE y prif benawdau gyda'r Bwrdd. Roedd yn rhoi darlun o'r newid ym mhatrwm y gwaith a'r effaith ar bwysau gwaith y staff.]

**Cynllun Codi'r Cyfyngiadau**

Nododd OE fod EM wedi bod yn gweithio ar gynllun oedd yn amlinellu'r camau o ran codi'r cyfyngiadau pan fydd hynny'n briodol. Dywedodd EM bod hi'n anodd gweld swyddfeydd yn ail agor yn fuan ond roedd hi'n bwysig cynllunio ar gyfer y posibiliad rhyw ben. Byddai angen mesurau corfforol i gwrdd â'r rheol 2 metr a chydlynu gyda landlordiaid yng Nghaernarfon a'r Egin. Bwriedir cynllunio i staff ddod yn ôl fesul timoedd a byddai angen gweithio allan patrwm o bwy sydd angen bod lle a phryd. Roedd yn gyfle nawr i edrych o'r newydd ar sut oedd pobl yn gweithio a sicrhau balans rhwng hyblygrwydd a gofynion y busnes.

Awgrymodd OD bod angen ffocysu ar y rhai sy'n ffeindio hi'n anodd gweithio o gartref. Nododd CW ei bod yn dechrau cael manylion o ran yr heriau gan gynnwys gofal plant. Tanlinellodd EM nad oedd unrhyw ddirywiad mewn perfformiad yn ystod y cyfnod a bod staff wedi bwrw ymlaen gyda'r gwaith a chymryd cyfrifoldeb personol. Nododd OE bod rhwng 80-90 o staff yn parhau i ymuno a'r cyfarfodydd staff wythnosol. Credai AG ei bod yn bwysig i staff deimlo'n rhan o dîm yn gorfforol, a'i bod yn her gwneud hynny os nad ydyn nhw yn yr un swyddfa. Ategodd GW fod hwn yn bwysig yn enwedig gyda staff newydd.

Nododd HHE fod e'n sefyllfa ddiddorol i sefydliadau. Y cwestiwn oedd sut y gellir elwa a chymryd y cyfle i weithio mewn ffordd wahanol. Gellir hefyd ystyried sut mae eraill wedi addasu ac efallai denu partneriaid i lenwi neu rannu adeiladau fel yr Egin a swyddfa Caernarfon. Cytunodd AG ac OD fod hwn

yn gyfle meddwl am beth yw rôl ein safleoedd. Roedd OE o'r farn fod lle yn y farchnad o bosib i gynnig gofod llai mewn swyddfeydd, gan na fydd pobl angen gofodau mawr yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Awgrymodd AR y gellir edrych ar greu hwb creadigol yn yr Egin, gan geisio denu cynhyrchwyr i mewn a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Roedd y Bwrdd yn teimlo fod yr ymatebion i'r Arolwg Staff yn galonogol iawn ac yn dangos fod S4C wedi gwneud eu gorau i edrych ar ôl staff yn ystod y cyfnod diweddar.]

7. **Diweddariad ar Gyflenwad rhaglenni statudol y BBC i S4C**

Cyflwynodd OE bapur oedd yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflenwad rhaglenni statudol y BBC i S4C.

**[Crynodeb:** Roedd OE wedi ysgrifennu at BBC Cymru yn derbyn nad oedd hi'n ymarferol i'r BBC gynhyrchu'r oriau statudol sydd angen i fyny at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn sgil COVID-19 ac yn cynnig syniadau i oresgyn y diffyg. Yn dilyn cyfarfod gyda Ken MacQuarrie o'r BBC i drafod ymhellach roedd y BBC wedi ysgrifennu at S4C. Byddai angen ymateb ar ôl ystyried ymhellach.]

8. **Cyflwyniad Chwaraeon**

Cyflwynodd SB diweddariad ar Chwaraeon.

**[Crynodeb:** Amcangyfrifir colled o 170 awr o chwaraeon rhwng mis Mawrth ac Awst eleni oherwydd COVID-19. Gyda pheth cynnwys o'r archif roedd SB yn ceisio comisiynu gwaith newydd o'r sector.

Cafwyd peth trafodaeth am gynlluniau i ddod â'r cynghreiriau pêl-droed a rygbi'n ôl, ond nododd SB ei bod yn anodd iawn cael dyddiad pendant. Yr unig pethau pendant ar y pryd oedd y Tour de France ar ddiwedd Awst, a ras y Giro d'Italia ym mis Hydref.

Roedd y gynghrair ddomestig pêl-droed yng Nghymru wedi gorffen ond o bosib byddai gemau Cwpan Cymru dros yr haf. O ran rygbi, o bosib byddai modd gorffen tymor presennol y Pro14 gyda 4 awr yn dod gan y BBC. Roedd SB yn gweithio ar gynllun strategol ar gyfer Chwaraeon.

Ychwanegodd AR fod arian chwaraeon wedi'i diogelu yn y gyllideb ond bod oriau'r BBC yn ffactor bwysig. Roedd Strategaeth 22 yn gyfle i edrych eto ar y blaenoriaethau a lle'r chwaraeon yn yr amserlen.

Atgoffodd SB y Bwrdd fod cytundebau'r Rygbi Pro14 yn dod i ben ym mis Mai 2021, a'r cytundeb pêl-droed ym mis Mai 2022.]

9. **Cyllideb Cynnwys**

**[Crynodeb:** Diolchodd AR i OLl am baratoi'r cyflwyniad ar y sefyllfa ddiweddara o ran y gyllideb gynnwys. Roedd y sefyllfa'n gymhleth oherwydd colli gymaint o oriau.

Holwyd be fyddai'r effaith ar y gyllideb pe byddai COVID-19 yn parhau am gyfnod. Roedd hi'n anodd rhagweld beth fyddai'r union effaith ond byddai goblygiadau mawr i golli dramâu a'r operâu sebon. Roedd sicrhau yswiriant ar gyfer cynyrchiadau yn fwyfwy heriol yn ogystal â chostau cynhyrchu yn cynyddu.

Roedd hi'n amlwg i'r Bwrdd fod llawer o waith cynllunio yn digwydd ac roedd hynny'n gysur. Roedd y gwariant ar gynnwys eleni yn bwysig ond roedd angen ceisio sicrhau na fydd y flwyddyn nesaf yn cael ei heffeithio'n ormodol.]

Diolchodd SL i S4C am y gwaith arloesol ac am fentro gyda'r Eisteddfod T. Nododd AR fod 2,500 o blant a phobl ifanc wedi ceisio a bod yr wythnos wedi bod yn llwyddiant mawr.

10. **Cydleoli**

Nodwyd bod S4C wedi ysgrifennu at y BBC ers cyfarfod y Pwyllgor Archwilio diwethaf ac wedi derbyn ymatebion. Ers hynny roedd cyfarfodydd o'r JPB a'r Grŵp Lliwio wedi digwydd.

Cyflwynodd RhD ddiweddariad ar y prosiect. Roedd y BBC yn parhau gyda'r cynlluniau i ail ddechrau'r prosiect ac yn awyddus i gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosib.

**[Crynodeb:** Roedd trafodaethau wedi bod ynglŷn ag S4C yn symud ar ôl Radio. Roedd swyddogion S4C yn pwysleisio'r angen i orffen y gwaith er mwyn sicrhau darlledu di-dor o Sgwâr Canolog. Bydd angen amserlen mwy manwl sy'n cynnwys goblygiadau'r cyfyngiadau COVID-19.

Byddai cyfle i'r aelodau craffu ymhellach ym mis Mehefin pan fydd y BBC yn cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio.

Holodd AG am y sefyllfa gydag arbedion y prosiect. Dywedodd EM fod trafodaethau wedi digwydd cyn y cyfnod clo ond byddai'r swyddogion yn codi'r mater yn y JPB nesaf gan nodi bod y Bwrdd wedi gofyn am ddiweddariad.]

11. **Strategaeth 2022**

Cyflwynodd OE ddiweddariad ar gynlluniau ar gyfer Strategaeth 2022. Nododd fod gwaith yn parhau yn y cefndir ac esboniodd RhD am y ffrydiau gwaith gwahanol gan gynnwys: beth yw pwrpas S4C; y casglwr cynnwys, newyddion digidol; a'r cynllun technegol.

Roedd grŵp llywio wedi'i sefydlu ar gyfer y prosiect newyddion digidol a diolchodd RhW i OD am ei fewnbwn i'r cynlluniau. Rhoddwyd gwahoddiad i OD ymuno gyda'r Pwyllgor Llywio mewnol sydd yng ngofal cynlluniau Newyddion Digidol S4C.

**[Crynodeb:** Dywedodd OD fod y cynnydd yn galonogol i weld a gofynnodd a fyddai'n bosib gweld cynllun prosiect / Gantt chart rhywbryd.

Nododd HHE gyda chymaint yn digwydd megis cydleoli, COVID-19, a'r gwaith ar Strategaeth 22, byddai angen meddwl am gynlluniau hir dymor S4C.]

Roedd yr Aelodau'n awyddus i gael cyfarfod penodol ar Strategaeth 22 cyn gwyliau'r haf.

12. **Cyflwyniad Cyfryngau Cymdeithasol 2019-20**

Cafwyd adroddiad gan AJ am berfformiad y cyfryngau cymdeithasol yn ystod 2019-20.

**[Crynodeb:** Bu twf sylweddol ar draws y llwyfannau yn ystod y flwyddyn. Roedd partneriaethau Facebook yn rhan enfawr o'r gwaith gyda'r tîm yn gweithio gyda sefydliadau amrywiol dros Gymru. Gofynnodd AR a oedd pwynt parhau gyda'r hen gyfrifon a nododd AJ fod rhywfaint dal yn ymweld â'r cyfrifon.

Dywedodd AJ taw Ebrill 2020 oedd mis gorau S4C erioed o ran sesiynau gwylio ar draws y platfformau. Soniodd am Iaith ar Daith fel model ar gyfer y dyfodol. Roddent wedi dechrau o'r dechrau ac nid o glip oedd wedi ei dorri ar gyfer y teledu. Dyma rai o glipiau gorau S4C erioed o ran sesiynau gwylio.]

13. **Perfformiad Misol**

Cyflwynodd EJ adroddiad ar berfformiad misol Ebrill.

**[Crynodeb:** Roedd hi'n amlwg fod y cyfnod clo wedi cael effaith ar ffigyrau wythnosol S4C trwy golli'r holl chwaraeon a chyfres Pobol Y Cwm i lawr i ddwy raglen yr wythnos. Roedd rhaglenni craidd yn dod mewn a chyrhaeddiad da iawn i'r sianel yn wythnosol yn ystod y cyfnod clo. Roedd cyfresi fel Iaith ar Daith a Priodas Pum Mil wedi bod yn boblogaidd iawn.

Roedd colli chwaraeon wedi effeithio ar gyrhaeddiad S4C yn sylweddol ac nid yw hyn yn wir am PSBs eraill. Fodd bynnag, roedd miloedd oriau brig S4C wedi cadw'n gyson ers dechrau'r flwyddyn. Doedd diffyg chwaraeon ddim wedi effeithio'n ormodol ar ffigurau Clic ac roedd rhaglenni hynod boblogaidd fel Iaith ar Daith yn llenwi'r bwlch yn ddigonol.]

Nododd OD ac AR ddibyniaeth y gwasanaeth ar chwaraeon. Byddai'n bwysig cynnwys y mater fel rhan o naratif yr Adroddiad Blynyddol. Roedd y perfformiad hefyd yn dangos fod y gynulleidfa wedi mynd yn fwy "craidd" yn ystod y cyfnod.

14. **NAO**

Adroddodd OLl fod gwaith yn parhau gyda'r NAO, a bod ShW a'r tîm yn cydweithio ar adroddiad fydd yn cael ei chyfleu ar gyfer y Bwrdd nesaf. Yn ogystal mae mwy o waith i'w wneud ar ysgrifennu'r Adroddiad Blynyddol.

15. **Bwrdd Masnachol**

**[Crynodeb:** Nododd EM fod y Bwrdd Masnachol wedi cwrdd y diwrnod blaenorol. Cawsant gyflwyniad gan gwmni Sky am y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r farchnad yn y DU. Roedd y cynllun i gynnig hysbysebion elusennol wedi bod yn boblogaidd ac yn stori bositif. Roedd yr NAO wedi cyflwyno drafft o'r cyfrifon masnachol.]